# Strategaeth Gyfathrebu 2024-26



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

Gall pawb gael mynediad at **Sgwrs y Sir** i fynegi eu barn a rhannu syniadau am y Sir neu'r ardal leol.

Dyma'r ddolen i dudalen we Sgwrs y Sir
Dyma'r ddolen i dudalen Facebook Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

sgwrsysir@conwy.gov.uk

01492 574000

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth *BT Relay* sydd â nam ar eu clyw neu'u lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy'r gwasanaeth *InterpretersLive!* y mae *Sign Solutions* yn ei ddarparu – ewch i www.conwy.gov.uk/arwyddion

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print bras a sain.**

**Holwch y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad am hyn**

Cysylltwch â'r: Swyddog Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb

e-bost: cydraddoldebau@conwy.gov.uk

Rhif Ffôn: 01492 576301 / 574213



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## Cynnwys


1. Rhagarweiniad
2. Amcanion
3. Crynodeb Gweithredol
4. Ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022 - 2027
5. Ein Gweledigaeth
6. Ein Dull
7. Ein Llais
8. Ein Sianeli Cyfathrebu
9. Adnoddau ar gyfer Cyflawni
10. Casgliad

Atodiad 1 – Sianeli Cyfathrebu – Canllaw i'r Arferion Gorau

Atodiad 2 – Siart Llif Sianeli Cyfathrebu

Atodiad 3 – Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth – *Strategic Communication*: *MCOM Function Guide*, "*Engagement Framework*"

# 1. Rhagarweiniad

Un o'n hamcanion corfforaethol yw sicrhau bod pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble caiff eu cefndir a'u hunaniaeth eu gwerthfawrogi a'u parchu.  Mae'r strategaeth hon yn manylu ynghylch y ffyrdd y byddwn yn meithrin cyswllt â chymunedau Conwy i gyfleu ein cynlluniau a'n hamcanion.

1.1. Mae'n dangos sut rydym yn cyfathrebu ac yn gwrando ar bobl yn unol â Chanlyniad 8 yn ein Cynllun Corfforaethol (2022-27)

"Canlyniad 8: Mae pobl yng Nghonwy yn cael eu parchu, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn cael eu clywed ac yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned."

# 2. Amcanion

2.1. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw:

"Meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth ymysg preswylwyr Conwy wrth i ni ddatblygu ein swyddogaeth ddyblyg fel corff sy'n galluogi gwasanaethau a'u darparu."

Amcanion y strategaeth hon yw:

a) Cryfhau cyfleoedd i bobl leol a grwpiau ddylanwadu ar bolisïau, darpariaeth gwasanaethau a'r hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau a datblygu a chynnal y cyfleoedd hynny.
b) Adeiladu ar enw da Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy osod ein gwerthoedd corfforaethol yn ganolog i bopeth a wnawn a chyflawni ein gwaith yn gyson â fframwaith y brand.
c) Datblygu strwythur cynlluniedig ar gyfer yr holl waith cyfathrebu ac ymgysylltu a phennu hierarchaeth bendant o negeseuon strategol sydd â chysylltiadau uniongyrchol â gweledigaeth a chanlyniadau ein Cynllun Corfforaethol.
d) Cyflwyno deunydd cyfathrebu cydgysylltiedig, rhagweithiol a chadarnhaol ynghylch y negeseuon strategol â blaenoriaeth.
e) Meithrin hyder a chymhwysedd y sefydliad wrth reoli'r gwaith ymgysylltu a chyfathrebu yn rhagweithiol ac yn effeithiol.
f) Gweithio â chymunedau i'w helpu i ddeall sut ariennir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a pha wasanaethau y mae'n eu darparu.
g) Ein helpu i gyflawni ein hamcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2022-27).

# Crynodeb Gweithredol

## 3. Crynodeb Gweithredol o'r Strategaeth

**3.1.** Mae'n hanfodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'n cymunedau'n cyfathrebu'n dda gyda'n gilydd er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau.

**3.2. Ein Dull**

Bydd ein dull:

| | |
|---|---|
| **Yn Gyson** | Rydym wedi llunio negeseuon clir a chyson y gellir eu rhannu drwy amryw sianeli. Bydd yr holl negeseuon hynny'n gysylltiedig ag amcanion penodol yn y Cynllun Corfforaethol. |
| **Wedi'i Gynllunio** | Byddwn yn cynllunio ein deunydd cyfathrebu o flaen llaw lle bo modd. |
| **Yn Rhagweithiol** | Fe wnawn ein gorau i feithrin cyswllt â'n cymunedau a rhannu gwybodaeth â hwy cyn gynted â phosib. Fe wnawn ein gorau i ymateb yn gyflym i faterion nad ydynt wedi cynllunio ar eu cyfer. |
| **Yn Ddidwyll** | Fe geisiwn gael pobl go iawn i gyfathrebu ar ein rhan lle bo modd. Mae pobl ddidwyll, agos atoch yn llawer mwy effeithiol na 'llefarwyr' anhysbys. |
| **Yn hygyrch i bawb** | Fe geisiwn ddefnyddio dulliau cyfathrebu sy'n bodloni anghenion pobl yn ein cymunedau. Fe geisiwn gyflawni'r saith o egwyddorion a bennir yn ein Strategaeth Cynnwys y Gymuned (gweler pwynt 6.9 am ychwaneg o fanylion). |
| **Yn Gymraeg yn ein Cymunedau** | Rydym yn frwd dros gefnogi pobl a'u hannog i ddefnyddio eu Cymraeg drwy ein deunydd cyfathrebu. Dymunwn hybu a chlodfori'r Cymraeg a siaredir yn ein cymunedau ac annog pobl i ymuno â ni ar y daith at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a dod yn un o filiwn. |
| **Yn Gymraeg yn ein Gweithle** | Mae'r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni. Ein hiaith ni yw'r Gymraeg ac mae'n perthyn i bawb ohonom. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant ni. Ni yw'r cyflogwr mwyaf yn y sir a dymunwn arwain drwy esiampl a dangos sut y gall sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
| **Yn Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Golwg neu'u Clyw** | Rydym hefyd yn ymrwymo i alluogi pobl â nam ar eu golwg neu'u clyw i feithrin cyswllt â'r Cyngor. |
| **Yn Gynhwysol** | Mae ein cymuned yng Nghonwy'n meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol ddofn ac amrywiol. Mae'n bwysig ein bod yn datgelu a thynnu sylw at straeon heb eu hadrodd a chlodfori ein llwyddiannau fel cymuned. |
| **Yn Ymatebol** | Fe geisiwn ymateb mor gyflym a chywir ag y gallwn lle bo modd, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n gywir ac yn addysgiadol. |

### 3.3. Tôn Llais

Mae'r ffordd rydym yn siarad â phobl yn bwysig. Rydym i gyd yn ymdrin ag iaith mewn amryw wahanol ffyrdd ac os yw pawb yn defnyddio'i arddull ei hun, fe fydd llais Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn anghyson a gall hynny beri dryswch. Neilltuwyd rhan o'r strategaeth hon i'n helpu i sicrhau cysondeb yn nhôn ein llais:

| | |
|---|---|
| **Hyderus** | Rydyn ni'n ddibynadwy ac yn siŵr o'n pethau. |
| **Agos Atoch** | Rydyn ni'n hapus i helpu ac yn canolbwyntio ar bobl; fe ddefnyddiwn iaith syml y gall pawb ei deall. |
| **Agored** | Rydym yn onest ac yn cynnwys pawb, boed y newyddion yn dda neu'n ddrwg. |
| **Cadarnhaol** | Rydym yn flaengar ac yn gadarnhaol am y cyfleoedd sydd gennym yng Nghonwy. |
| **Empathig** | Cydymdeimlwn â'n cymunedau ynghylch y problemau maent yn eu hwynebu a gweithiwn yn galed i geisio'u deall. |
| **Clir** | Gweithiwn yn galed i siarad mewn ffordd sy'n hawdd ei ddeall a cheisiwn osgoi 'jargon' lle bo modd. Dyma ganllaw defnyddiol. |

### 3.4. Sianeli Cyfathrebu

Mae amrywiaeth helaeth o Sianeli Cyfathrebu ar gael i'r Cyngor. Mae arnom angen bod yn bendant ynglŷn â swyddogaeth pob sianel a pha negeseuon sy'n gweithio orau ymhob un.

| | |
|---|---|
| **Wyneb yn Wyneb** | Mae Coed Pella ym Mae Colwyn yn hwyluso mynediad at wasanaethau ac yn ein helpu i gysylltu'r gwasanaethau hynny â'i gilydd i roi gwell profiadau i bobl. Ceir amryw ystafelloedd cyfarfod preifat a mannau aros, cyfrifiaduron a ffonau i'r cyhoedd eu defnyddio a staff wrth y dderbynfa i ddarparu cymorth.<br><br>Bwriadwn ymestyn hynny i'n cymunedau yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir, drwy ddatblygu ein Llyfrgelloedd yn Ganolbwyntiau Cymunedol. Y mannau hynny fydd y prif bwyntiau cyswllt i'n trigolion.<br><br>Mae modd trefnu apwyntiadau â swyddogion mewn gwasanaethau penodol pan mae angen. |
| **Ffôn** | Rydym yn hyrwyddo un rhif ffôn ar gyfer unrhyw Ymholiadau Cyffredinol. Dylai'r rhan helaeth o ymholiadau gael ymateb ar unwaith drwy'r rhif ffôn hwn.<br>Os oes angen cymorth arbenigol, trosglwyddir yr ymholydd i'r tîm/swyddog perthnasol. Bydd canolfannau cyswllt mewn gwasanaethau penodol yn dal yn hwyluso mynediad uniongyrchol at dimau arbenigol mewn gwasanaethau fel yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau neu'r Un Pwynt Mynediad. Gellir trefnu apwyntiadau â swyddogion os bernir bod angen hynny. |
| **Cyfryngau Cymdeithasol** | Darparu deunydd perthnasol, diddorol a difyr i'n cymunedau yn Gymraeg a Saesneg. Ychwanegir deunydd yn gyson sy'n adlewyrchu Brand a Gwerthoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn gyson â pholisi cyfryngau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. |
| **Y Wefan** | Y wefan gorfforaethol yw'r prif bwynt cyswllt i gyfran helaeth o'n cymuned. Mae'n hanfodol ei chadw'n gyfoes gyda gwybodaeth sy'n berthnasol i'n cymunedau. |

| | |
|---|---|
| **Y Wasg/Cysylltiadau Cyhoeddus** | Mae arnom angen cyfathrebu'n effeithiol drwy'r cyfryngau ac annog y cyhoedd i gyfranogi drwy hyrwyddo gwaith y Cyngor mewn iaith glir, gyfoes a hawdd ei deall. |
| **Cyfathrebu Mewnol** | Mae cyfathrebu â'n staff ein hunain ac Aelodau Etholedig, sef llais democrataidd ein cymunedau, yn un o'n sianeli mwyaf effeithiol. Mae mwy na 4,500 o bobl yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gallant helpu eu cymunedau i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud, os rhannwn wybodaeth â hwy'n effeithiol. |
| **Aelodau Etholedig** | Dylent feithrin cyswllt â'r cyhoedd a gwrando'n weithredol arnynt drwy amryw sianeli. Dylent gyfathrebu'n agored a gonest â'r cyhoedd ynglŷn â'u penderfyniadau, eu camau gweithredu a'u polisïau - gynnwys yr adegau y buont yn siarad yn y siambr yng nghyfarfodydd y Cyngor neu bwyllgorau.<br>Dylai Aelodau Etholedig ddefnyddio amryw ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys deunydd dwyieithog, ffurfiau hygyrch ar gyfer pobl ag anableddau ac ymdrechion i estyn allan at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai Swyddogion rannu unrhyw wybodaeth ddiweddaraf ag Aelodau Etholedig i'w helpu â materion sy'n effeithio ar eu wardiau. Rhaid gwneud hynny'n brydlon. |

### 3.5. Adnoddau ar gyfer Cyflawni

Gellir defnyddio nifer helaeth o adnoddau ac offer. Ein bwriad yn hyn o beth yw meddwl am ffyrdd o wneud pethau'n wahanol, yn hytrach na dyfeisio rhywbeth newydd sbon.


| | |
|---|---|
| **Pobl** | Mae angen i bob gwasanaeth a phob aelod o staff fod ynghlwm wrth y strategaeth hon. Gallwn oll ddilyn egwyddorion y strategaeth a'i defnyddio yn ein gwaith beunyddiol. |
| **Offer Cyfathrebu** | Mae llawer o offer ar gael inni ond mae'n bwysig ein bod yn defnyddio amryw sianeli gan ddeall nad oes yr un dull sy'n addas i bawb. Mae arnom angen addasu ein dull o gyfathrebu yn ôl y gynulleidfa a'r neges. |
| **Arfarnu** | Mae arnom angen ystyried yr hyn a wnawn yn rheolaidd a meddwl 'Beth allai fod yn well?' gan fabwysiadu a rhannu arferion da, arfarnu'r hyn a wnaed y gweithredu ar sail unrhyw wersi a ddysgir. |

# *Y strategaeth gyflawn*

## 4. Ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022 - 2027

4.1. Mae gennym gynllun ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol sy'n nodi ein dyheadau i wneud gwahaniaeth ar ran pobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn bodloni ein canlyniadau hirdymor ar gyfer ein dinasyddion.

4.2. Mae heriau o'n blaenau ond byddwn yn dal  i roi ein cymunedau wrth galon popeth a wnawn. Byddwn felly'n adolygu'r Cynllun Corfforaethol bob blwyddyn ar sail yr hyn y mae ein cymunedau wedi'i ddweud wrthym.



## 5. Ein Gweledigaeth

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

5.1. Rydym yn gweithio mewn amgylchedd sy'n newid o hyd a gall y gwaith fod yn drwm. Ein gweledigaeth yw bod yn flaengar wrth reoli newid a defnyddio'r sefyllfa i greu cyfleoedd, i warchod yr hyn sydd gennym ac adeiladu ar hynny wrth ymateb i newid. Mae cyflawni'r weledigaeth honno'n ymdrech ar y cyd.

## 6. Ein Dull

**6.1.** Ein henw da yw un o'n hasedau mwyaf. Mae hynny'n seiliedig ar ymddiriedaeth, a gall Cyngor gyflawni llawer iawn mwy drwy ennyn ymddiriedaeth a dealltwriaeth ei drigolion. Gallwn ddylanwadu ar ein henw da a phenderfynu am beth y dymunwn i bobl ein hadnabod. Daw hynny o gael diben pendant wedi'i fynegi'n gryno a'i gyfleu'n gyson ac yn onest.

**6.2.** Mae cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol yn hanfodol i bopeth a wnawn. Nid yw'n ddigon inni wneud y pethau iawn; mae'n rhaid inni gyfleu 'pam' a sut' y gwnawn bethau er mwyn ennyn ymddiriedaeth ein cymunedau.

**6.3.** I feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth, mae'n rhaid inni ymgysylltu â'n cymunedau ynglŷn â phenderfyniadau a defnyddio dulliau cyfathrebu symlach wrth rannu gwybodaeth frys.

**6.4.** Er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth hon, mae angen i ddeunydd cyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod:

**6.5. Yn gyson**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn hyderus ynglŷn â'r hyn y dymunwn i bobl ein hadnabod amdano ac wedi datblygu negeseuon clir a chyson y gellir eu rhannu drwy amryw sianeli gwahanol. Amlygir y negeseuon hynny ym mhopeth a ddywedwn a byddant yn gysylltiedig ag amcanion penodol yng Nghynllun Corfforaethol 2022-27. Ein nod yw:

a) Cynnwys cynlluniau cyfathrebu ar gyfer prosiectau a gwasanaethau penodol sydd â chysylltiadau â negeseuon strategol craidd.
b) Helpu Swyddogion ac Aelodau i ddod yn gyfarwydd â'r negeseuon a sicrhau fod pob 'llefarydd' yn hyderus ynglŷn â'r negeseuon hynny.
c) Darparu canllawiau ysgrifennu ac arddull cyfoes i'r holl staff.
d) Darparu templedi wedi'u brandio i'r holl staff eu defnyddio wrth lunio dogfennau i'r cyhoedd a deunydd hyrwyddo.
e) Sicrhau bod holl waith marchnata'r Cyngor yn seiliedig ar hunaniaeth weledol graidd y Cyngor fel y nodir yn y canllawiau brandio.

**6.6. Wedi'i Gynllunio**

Mae cyfran helaeth o'r hyn y mae angen i unrhyw Gyngor gyfathrebu yn ei gylch yn wybodaeth sy'n hysbys o flaen llaw. Golyga hynny bod arnom angen cynllunio ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ymhob agwedd ar ein gwaith. Ein nod yw:

a) llunio cynllun cyfathrebu ar gyfer pob prosiect mawr, newid mewn gwasanaeth a chynllun newydd, sy'n canolbwyntio ar y negeseuon allweddol
b) sefydlu rhaglen ymgysylltu i ddangos sut rydym yn cynnwys ein cymunedau o'r cychwyn cyntaf
c) adnabod penderfyniadau pwysig a darnau o waith sydd ar y gorwel a llunio deunydd cyfathrebu o flaen llaw.

**6.7. Yn Rhagweithiol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymo i ymgysylltu â'n cymunedau a'u hysbysu o bethau cyn gynted ag y bo modd; mae a wnelo bod yn rhagweithiol â mwy na dim ond newyddion y gwyddom amdano o flaen llaw, fodd bynnag. Mae'n fater o ymateb yn gyflym i faterion a gyfyd yn ddirybudd a'n helpu i feithrin hyder ymysg ein cymunedau. Ein nod yw:

a) ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau o flaen llaw a chyfathrebu am bethau cyn gynted ag y bo modd
b) hyfforddi a mentora uwch-aelodau o staff ac Aelodau ym materion y cyfryngau
c) llunio deunydd cyfathrebu o flaen llaw
d) meithrin cysylltiadau â phobl allweddol a dylanwadwyr ym myd y cyfryngau.

**6.8. Yn Ddidwyll**

Mae'n hanfodol bod yn ddidwyll wrth gyfathrebu â'n cymunedau. Dymuna ein trigolion glywed gan bobl go iawn sy'n darparu'r gwasanaethau maent yn dibynnu arnynt ac yn penderfynu yn eu cylch. Mae rhywun didwyll ac agos atoch sy'n rhannu neges yn hyderus ac yn glir yn cyfleu'r neges yn llawer iawn gwell na 'llefarydd y Cyngor' dienw neu ddatganiad corfforaethol. Ein nod yw:

a) Cael pobl go iawn i gyfathrebu ar ein rhan lle bo modd
b) Annog ein staff i fod yn llysgenhadon ar ran y Cyngor yn eu cymunedau
c) Llunio negeseuon diddorol ac ystyrlon
d) Cael pobl go iawn o gefndiroedd amrywiol i ymddangos yn ein delweddau.

**6.9. Yn hygyrch i bawb**

Mae'n bwysig ein bod ni'n gallu defnyddio sianeli cyfathrebu sy'n bodloni anghenion pobl a chymunedau. Yn ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus, fe restrir saith o egwyddorion sy'n dangos ein bod yn ymrwymo i gysylltu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws i bobl ymuno:

a) **Hygyrch a chynhwysol -** mae pawb yn ein cymuned yn cael dewis a chyfle i gyfranogi
b) **Clir a phroffesiynol** - cyfleu hyder, dibynadwyedd a hygrededd
c) **Targedu** - mae'r bobl iawn yn cael y wybodaeth iawn er mwyn cymryd rhan
d) **Agored, gonest a thryloyw** - bod â phwrpas clir a bod yn onest am unrhyw gyfyngiadau
e) **Amserol a pherthnasol** - rhoi digon o amser a rhybudd i bobl fedru cymryd rhan
f) **Cynaliadwy** - cynnal perthnasoedd sy'n fuddiol i bawb
g) **Dwy ffordd** - fe fyddwn ni'n cael sgwrs. Yn gwrando yn ogystal â siarad.

**6.10. Cymraeg yn ein Cymunedau**

Rydym yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy'n Gyngor dwyieithog. Rydym yn frwd dros gefnogi pobl a'u hannog i ddefnyddio eu Cymraeg drwy ein deunydd cyfathrebu. Dymunwn hyrwyddo a chlodfori'r Cymraeg a siaredir yn ein cymunedau, faint bynnag o Gymraeg y gall pobl ei siarad. Rydym eisiau annog cymunedau i ymuno â ni ar y daith at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dod yn un o filiwn.

a) Anelwn at gynnig mynediad at wasanaethau yn Gymraeg lle bynnag y bo modd.
b) Defnyddio geiriau Cymraeg heb eu cyfieithu lle bo'n briodol (er enghraifft, Caffi neu Teleffon/Ffôn)
c) Cynnig sianeli Cymraeg a Saesneg ar gyfer pob ffurf ar gyfathrebu digidol.
d) Adolygu'r modd y defnyddiwn Gymraeg yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau fel y'u pennwyd ym Mholisi'r Gymraeg.

**6.11. Cymraeg yn ein gweithle**

Mae'r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni. Ein hiaith ni yw hi ac mae'n perthyn i bawb ohonom. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant ni. Mewn cyfnod lle rydym i gyd yn wynebu llawer o heriau, fe all dathlu ac annog ein Llais Cymraeg ddod â ni at ein gilydd. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, faint bynnag o Gymraeg rydych yn ei wybod, o ble bynnag rydych yn dod a lle bynnag rydych yn byw ar hyn o bryd yn sir Conwy. Ni yw'r cyflogwr mwyaf yn y sir a dymunwn arwain drwy esiampl a dangos sut y gall sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Ein nod yw:

a) Bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg yn y gweithle - cefnogir holl staff Conwy i gyrraedd lefel 1 a medru ynganu enwau lleoedd a chyfarchion syml.
b) Argymell defnyddio enwau Cymraeg ar leoedd, strydoedd ac adeiladau yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau, cyhoeddiadau ac arwyddion swyddogol.
c) Darparu hyfforddiant dysgu a sgiliau Cymraeg i staff yn ystod oriau gwaith neu eu cyfeirio at ddosbarthiadau nos pe byddai'n well ganddynt wneud hynny.
d) Hybu hyder dysgwyr drwy sesiynau Panad a Sgwrsio, digwyddiadau diwylliannol, cynllun mentora a chefnogaeth gan siaradwyr iaith gyntaf.
e) Normaleiddio defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy arwyddion a phosteri yn y swyddfa; pethau syml fel dechrau cyfarfodydd yn y Gymraeg a chynnwys hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o amcanion rheolwyr.
f) Defnyddio TG i ddarparu Cysgliad a gwiriwr sillafu Cymraeg ar gyfrifiadur pob aelod o staff, darparu rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer *MS Office* ar gais a newid yr holl gyfeiriadau e-bost fel y bod yn gorffen â 'llyw.cymru'.
g) Defnyddio geiriau Cymraeg sy'n hawdd eu deall yn ffrwd Saesneg cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

**6.12. Hygyrchedd i Bobl â Nam ar eu Golwg neu'u Clyw**

Rydym hefyd yn ymrwymo i alluogi pobl â nam ar eu golwg neu'u clyw i feithrin cyswllt â'r Cygnor. Ein nod yw:

a) Adolygu ein trefniadau hygyrchedd yn rheolaidd
b) Codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl â nam ar eu golwg neu'u clyw
c) Adolygu'r wybodaeth sydd gennym ar ffurf hygyrch a'n darpariaeth cyfieithu'n rheolaidd yn unol â chyfyngiadau'r gyllideb
d) Cael gwared ar bethau sy'n rhwystro pobl rhag mynd at ddeunydd digidol (deunydd ar y we, apiau symudol neu ddogfennau) fel bod pawb yn cael mynediad teg a chyfartal.

**6.13. Yn Gynhwysol**

Mae ein cymuned yng Nghonwy'n meddu ar dreftadaeth ddiwylliannol ddofn ac amrywiol. Mae'n bwysig ein bod yn datgelu a thynnu sylw at straeon heb eu hadrodd a chlodfori ein llwyddiannau fel cymuned. Ein nod yw:

a) Dangos dyfnder ein treftadaeth ddiwylliannol drwy ddefnyddio deunydd ar gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu eraill i ddatgelu straeon newydd sydd wir yn adlewyrchu ein cymuned a'u rhannu.
b) Sicrhau bod y deunydd a rown ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn hysbysebion yn wrth-wahaniaethol, ac osgoi stereoteipiau a chamfeddiannu diwylliannol
c) Dod o hyd i'r amrywiaeth helaeth o grwpiau ac unigolion sy'n adlewyrchu ein treftadaeth ddiwylliannol frith, er mwyn amlygu eu llwyddiannau a'u clodfori.

**6.14. Yn Ymatebol**

Fe geisiwn ymateb mor gyflym a chywir ag y gallwn lle bo modd, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n gywir ac yn addysgiadol. Ein nod yw:

a) Ymateb yn gyflym ac yn gywir i ymholiadau gan bobl yn sir Conwy a thu hwnt.
b) Ymateb yn chwim wrth i amgylchiadau newid, boed y rheiny'n gymdeithasol, economaidd neu'n amgylcheddol.
c) Mynd i'r afael â phroblemau a heriau wrth iddynt ddod i'r amlwg
d) Gwrando'n weithredol ar farn pobl a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau

## 7. Ein Llais

**7.1.** Mae’r ffordd yr ydym yn siarad â phobl yn bwysig, boed hynny wrth ateb y ffôn, sgwrsio â rhywun ar y stryd neu gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae gan bob un ohonom bersonoliaeth a ddaw i’r amlwg pan rydym yn mynegi ein hunain. Rydym i gyd yn ymdrin ag iaith mewn amryw wahanol ffyrdd ac os yw pawb yn defnyddio’i arddull ei hun, fe fydd llais Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn anghyson.

**7.2.** Mae cysondeb ein llais yn ei gwneud yn haws i’n trigolion ein hadnabod ni. Mae’n dangos ein personoliaeth a’n gwerthoedd bobl, hyd yn oed os na fedrwn gwrdd â hwy wyneb yn wyneb.

Dylai ein llais fod yn:

**7.3. Hyderus**

a) Rydym yn ddibynadwy ac yn hyderus yn ein dealltwriaeth a gwybodaeth.
b) Gall pobl ymddiried ynom i ymddwyn yn dda, gweithio’n galed a bod yn onest a thryloyw. Os ydyn ni’n swnio’n ansicr, yn anghyson neu’n creu’r argraff ein bod yn celu gwybodaeth, ni fydd pobl yn ymddiried yn ein gwasanaethau.
c) Lle bynnag y bo’n bosib neu’n briodol, rydym yn ymateb i anghenion pobl.

**7.4. Agos Atoch**

a) Rydym yn canolbwyntio ar bobl, sy’n golygu ein bod yn ymateb i anghenion pobl yn ogystal â deall eu dymuniadau a’u disgwyliadau.
b) Rydym yn trin pawb yn deg.
c) Defnyddiwn iaith syml y gall pawb ei deall.
d) Mae’n rhaid i’r ffordd rydym yn cyfathrebu daro tant â phobl.
e) Mae’n helpu pobl i ddod o hyd i’r wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac mae’n dangos ein bod ni’n hapus i helpu.

**7.5. Agored**

a) Rydym yn onest ac yn gynhwysol.
b) Hyd yn oed wrth wneud penderfyniadau anodd, mae’n rhaid i’r ffordd rydym yn cyfathrebu ein helpu i gydweithio â’r gymuned.
c) Fe wrandawn ar farn ein cymuned a’u helpu i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

**7.6. Cadarnhaol**

a) Rydyn ni’n meddwl am y dyfodol.
b) Credwn fod dysgu’n broses barhaus a bod gwaith ymchwil yn medru arwain at ffyrdd newydd, ysbrydoledig o weithio.
c) Dymunwn weithio â chymunedau i ennyn y gorau ohonynt, o ran ein busnesau a’r byd o’n cwmpas.
d) Mae angen i’r ffordd rydym yn cyfathrebu ysbrydoli pobl a bod yn gadarnhaol am y cyfleoedd sydd gennym.

**7.7. Empathig**

a) Rydym yn cydymdeimlo â phroblemau ein cymunedau.
b) Gweithiwn yn galed i geisio deall y problemau hynny.
c) Mae angen i’r ffordd rydym yn cyfathrebu daro tant yn emosiynol â’n cymunedau.

**7.8. Clir**

a) Gweithiwn yn galed i siarad mewn ffordd sy'n hawdd ei ddeall.
b) Mae'n well ceisio osgoi defnyddio iaith dechnegol, 'jargon' ac 'iaith y Cyngor'. Efallai bod rhywbeth yn gwneud synnwyr i weithwyr y Cyngor nad yw'n golygu dim i neb yn y gymuned ehangach.
c) Rydym wedi llunio canllaw ysgrifennu defnyddiol i helpu'n gweithwyr.

7.9. Wrth gwrs, efallai y bydd angen addasu ein dulliau ar wahanol adegau a gwahanol gyfryngau. Weithiau mae'n rhaid defnyddio iaith fwy ffurfiol ac weithiau mae'n well bod yn fwy hamddenol. Rydym wedi llunio Canllaw Ysgrifennu i roi syniad ichi sut i ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd - dilynwch y ddolen hon.

## 8. Ein Sianeli Cyfathrebu

8.1. Mae cyfathrebu'n beth cymhleth i sefydliad mawr fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gallwn ddefnyddio amrywiaeth helaeth o sianeli cyfathrebu wrth benderfynu sut orau i ennyn cyfranogiad cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Mae'r galw am hynny'n fwy nag erioed ac mae'n golygu bod arnom angen bod yn bendant ynglŷn â swyddogaeth pob sianel gyfathrebu sydd ar gael inni.

8.2. Mae cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth gyfathrebu â'n cymunedau. Er y bu twf mewn cyswllt drwy gyfryngau fel *Facebook*, *Instagram*, *LinkedIn* ac *X* (*Twitter*, gynt), mae pobl yn defnyddio ein gwasanaeth ffôn i'r un graddau ag o'r blaen.

8.3. Wrth i swyddogaeth y Cyngor newid, rydym yn dod yn fwyfwy'n alluogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau. Mae arnom angen helpu pobl yn ein cymunedau i fedru 'gwasanaethu eu hunain' a chefnogi pobl na fedrant wneud hynny lle bynnag y bo modd.

8.4. Mae'n rhaid inni gydnabod y gwahaniaeth rhwng cyfathrebu ac ymgysylltu. Os mai gwybodaeth yn unig sydd ei angen ar bobl, mae arnom angen defnyddio ein sianeli a chyfryngau digidol i'r eithaf.

8.5. Gwyddom nad yw pob un o'n cymunedau â chysylltiadau digidol a mynediad at gyfrifiaduron a/neu'r rhyngrwyd. Mae'n rhaid inni sicrhau y gall pobl glywed ein negeseuon craidd drwy ddulliau mwy traddodiadol lle bo hynny'n briodol. At hynny, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau fod gan bobl yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau digidol mewn llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus eraill.

8.6. Os rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a'u cynnwys wrth newid gwasanaethau, fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud hynny ar lefel fwy personol yn amlach na pheidio.

**8.7. Wyneb yn wyneb**

a) Mae'r swyddfa ym Mae Colwyn, Coed Pella, wedi ein galluogi i ddod â'r rhan helaeth o'n gwasanaethau ynghyd mewn un man. Mae hynny'n hwyluso mynediad at wasanaethau ac yn ein helpu i gysylltu'r gwasanaethau hynny â'i gilydd i roi gwell profiadau i bobl.
b) Mae yno ystafelloedd ymgynghori i'r cyhoedd, podiau lled-breifat, ystafelloedd cyfarfod ac ystafell ar gyfer Arddangosfeydd a Chynadleddau. Ceir amryw fannau aros wrth y brif dderbynfa, nifer o gyfrifiaduron a ffonau i'r cyhoedd eu defnyddio a staff wrth law i gynorthwyo pobl sy'n ymweld â Choed Pella.
c) Gellir mynd i'r ystafell ymgynghori i'r cyhoedd drwy'r ystafell 'Dyletswydd' lle mae swyddogion arbenigol mewn gwasanaethau penodol yn gweithio ynghyd â thîm Teleffoni'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Bathodynnau Glas, gwasanaethau cynllunio a Thai.
d) Bwriadwn ymestyn hynny i'n cymunedau yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir, drwy ddatblygu ein Llyfrgelloedd yn Ganolbwyntiau Cymunedol. Y mannau hynny fydd y prif bwyntiau cyswllt i'n trigolion.
e) Bydd Cynorthwywyr Gwybodaeth yn medru ymateb i ymholiadau am wasanaethau gyda chymorth y Canolbwynt Gwybodaeth.
f) Darperir mynediad digidol ar ffurf cyfrifiaduron i'r cyhoedd a bydd y Cynorthwywyr Gwybodaeth yn medru helpu pobl i lenwi ffurflenni ar-lein wrth wneud ymholiadau mwy cymhleth.

g) Gellir trefnu apwyntiadau â swyddogion os bernir bod angen hynny.

**8.8. Ffôn**

a) Derbyniwn fwy na 2.6 miliwn o alwadau ffôn bob blwyddyn drwy fwy na 80 o linellau ffôn sydd ar gael i'r cyhoedd.
b) Rydym wedi cyfuno ein Switsfwrdd â thîm Cynorthwywyr Gwybodaeth Coed Pella ac yn hyrwyddo un rhif ffôn ar gyfer yr holl Ymholiadau Cyffredinol. Mae hynny'n creu llawer mwy o gydnerthedd ac yn golygu bod modd brysbennu galwadau ffôn o'r cyswllt cyntaf.
c) Y nod yw bod y rhan helaeth o ymholiadau'n cael ymateb ar unwaith drwy'r rhif ffôn hwn.
d) Os oes angen cymorth arbenigol, trosglwyddir yr ymholydd i'r tîm/swyddog perthnasol.
e) Bydd canolfannau cyswllt mewn gwasanaethau penodol yn dal yn hwyluso mynediad uniongyrchol at dimau arbenigol mewn gwasanaethau fel yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau neu'r Un Pwynt Mynediad.
f) Bydd cyfarchion a dewislenni wedi'u recordio o flaen llaw'n helpu i gyfeirio pobl at yr adrannau iawn.
g) Bydd ffonau ar gael i'r cyhoedd ymhob Canolbwynt Gwybodaeth i gysylltu â thimau neu swyddogion.
h) Mae modd i bobl siarad a gweld ei gilydd heb deithio, drwy ddefnyddio offer telegynadledda neu fideo-gynadledda neu drefnu apwyntiadau â swyddogion mewn mannau heblaw am y swyddfa.
i) I weld y Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth yn llawn, dilynwch y ddolen hon

**8.9. Cyfryngau Cymdeithasol**

a) Mae'n bwysig ein bod yn dal yn cyhoeddi deunydd drwy amryw gyfryngau a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol fel ffordd o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl, gan sicrhau bod y deunydd yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn ddifyr.
b) Mae angen cyhoeddi deunydd newydd drwy ein cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd a sicrhau bod hwnnw'n briodol. Dylai pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol gydymffurfio â fframwaith cytunedig ac adlewyrchu brand a gwerthoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae angen iddynt fod yn nodweddiadol o Gonwy yn eu golwg, eu sain a'u cymeriad.
c) Dylai fod gan safleoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfryngau cymdeithasol fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol neu ddewisiadau dwyieithog fel y gall pobl eu darllen yn yr iaith o'u dewis. Datblygir cronfa helaeth o ymadroddion Cymraeg a Saesneg i'n galluogi i gyfathrebu'n ddwyieithog yn gyflym. Mae'n rhaid i'r Tîm Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol roi sêl bendith ar unrhyw safleoedd newydd er mwyn sicrhau cysondeb â'r fframwaith cyffredinol.
d) Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ddull pwysig o gyfathrebu. Gall ein timau eu defnyddio'n effeithiol i ymgysylltu â'n cymunedau ac ymateb i sylwadau lle bo hynny'n briodol.
e) I gael ychwaneg o wybodaeth, gweler ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yma.

**8.10. Y Wefan**

a) Y wefan gorfforaethol yw'r prif bwynt cyswllt i gyfran helaeth o'n cymuned. Dyma'r man pennaf y mae llawer o bobl yng Nghonwy'n mynd i gael gwybodaeth a gofyn cwestiynau am wasanaethau.
b) Gellir defnyddio'r wefan hefyd i annog pobl i fynd mewn rhyw gyfeiriad penodol, wrth weithredu ein hamcanion i newid ymddygiad pobl.
c) Mae'n hanfodol cadw'r wefan yn gyfoes a bod y wybodaeth yn berthnasol i'n cymunedau. Mae'n bwysig ei bod yn hawdd i bobl ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym a bod y wefan yn gweithio'n dda ar gyfrifiaduron yn ogystal â ffonau a llechi.
d) Rydym yn gweithio i wneud gwefan Conwy mor hygyrch â phosib i'r holl ymwelwyr, beth bynnag eu gallu, eu hanabledd neu ymwybyddiaeth gyffredinol o ddefnyddio'r rhyngrwyd. Ein nod yw creu gwefan sector cyhoeddus sy'n hawdd llywio drwyddi ac sy'n nodedig am fod yn wefan ragorol i ymweld â hi.

**8.11.** Lle bo'n briodol, dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gysylltu â chronfeydd data perthnasol sy'n helpu i ehangu'r wybodaeth gyfoes ynglŷn â'r holl gefnogaeth ar gyfer lles sydd ar gael ledled sir Conwy.

**8.12. Y Wasg/Cysylltiadau Cyhoeddus**

a) Mae arnom angen cyfathrebu'n effeithiol drwy'r cyfryngau ac annog y cyhoedd i gyfranogi drwy hyrwyddo gwaith y Cyngor mewn iaith glir, gyfoes a hawdd ei deall.
b) Mae'n ffordd bwysig o hyrwyddo'r hyn a wnawn a chlodfori llwyddiannau ein cymunedau.
c) Yn ogystal â hynny, mae arnom angen gallu ymateb yn gadarn a gwrthbrofi unrhyw honiadau ffug a wneir yn ein herbyn.
d) I gyflawni'r nod hwnnw, mae'n allweddol meithrin cysylltiadau cryf â'r cyfryngau ac mae gan y Tîm Cyfathrebu swyddogaeth sylfaenol fel y porth y mae pob sefydliad ym myd y cyfryngau'n mynd drwyddo. Mae'n bwysig, felly, eu bod yn bwrw golwg ar bob datganiad i'r wasg y mae'r Awdurdod yn eu cyhoeddi. Bydd eraill hefyd angen meithrin cysylltiadau cryf â phobl ym myd y cyfryngau. O bryd i'w gilydd, gall fod yn fuddiol i Aelodau Cabinet ac uwch-aelodau o staff friffio newyddiadurwyr yn uniongyrchol.
e) I wneud y gorau o'r rhan helaeth o sianeli sydd ar gael inni yn y cyfryngau, mae'n rhaid inni wella'r ffordd y cynlluniwn ein deunydd cyfathrebu. Fel y sonnir yn yr adran 'Dull wedi'i Gynllunio' uchod, bydd arnom angen bod yn llawer iawn mwy ymwybodol o'r straeon o bwys y dymunwn eu rhannu â'r wasg a rhoi prosesau ar waith i sicrhau mai ni sydd â rheolaeth ar gyhoeddi'r negeseuon hynny gyntaf.

**8.13. Cyfathrebu Mewnol**

a) Cyfathrebu â staff ac Aelodau Etholedig yw un o'n sianeli mwyaf effeithiol. Mae mwy na 4,500 o bobl yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gallant helpu eu cymunedau i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud, os rhannwn wybodaeth â hwy'n effeithiol.
b) Mae'r Briff Tîm yn canolbwyntio ar 'newyddion' y Cyngor ac fe'i hadolygir yn gyson i sicrhau ei fod yn cyflawni'r hyn a ddymunwn yn effeithiol. Dylai rheolwyr ddefnyddio'r bwletin newyddion hwn i rannu gwybodaeth â'u timau am bynciau llosg.
c) Mae'n bwysig bod uwch-reolwyr y sefydliad yn weledol i'r tîm ehangach fel bod modd iddynt rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ac ateb cwestiynau. Dylai uwch-aelodau o staff ddefnyddio amryw gyfryngau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w timau'n gyson, a rhoi gwybodaeth ar fewnrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd ar gael i bob aelod o staff.
d) Yn aml iawn, mae staff ac Aelodau Etholedig yn gallu rhoi syniad da o farn y cyhoedd yn y Sir. Fel arfer, maen nhw'n drigolion inni hefyd. Mae gwrando arnynt a meithrin cyswllt â hwy wrth inni ddatblygu polisïau, prosiectau a newidiadau mewn gwasanaethau'n ffordd bwysig arall o gynnwys cymunedau yn y gwaith mae'r cyngor yn ei wneud. Gweler Sgwrs Conwy i gael ychwaneg o fanylion.

**8.14. Ffrydio Byw a Galwadau Fideo**

a) Mae'n bwysig bod trefn benderfynu ddemocrataidd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.
b) Caiff holl gyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a'r Cabinet eu ffrydio'n fyw a'u darparu ar ein gwefan yn ddiweddarach.
c) Byddwn hefyd yn defnyddio cyfryngau fel *Zoom* a *Teams* i siarad â'n cymunedau lle bo modd, yn hytrach na ffonio.

**8.15. Aelodau Etholedig**

a) Dylai Aelodau Etholedig roi blaenoriaeth i wrando'n weithredol ar bryderon a barn y cyhoedd drwy amryw sianeli fel cyfarfodydd yn neuadd y dref, cyfryngau cymdeithasol a fforymau cymunedol. Bydd hynny'n helpu i ennyn ymddiriedaeth pobl a chael syniad gwerth chweil o'r hyn sy'n digwydd yn y gymuned.
b) Mae'n hanfodol bod yn dryloyw er mwyn ennyn ymddiriedaeth a bod yn atebol. Dylai Aelodau Etholedig gyfathrebu'n agored a gonest â'r cyhoedd ynglŷn â'u penderfyniadau, eu camau gweithredu a'u polisïau. Mae hynny'n cynnwys yr adegau y buont yn siarad yn y siambr yng nghyfarfodydd y Cyngor neu bwyllgorau.
c) Dylai Aelodau Etholedig ddefnyddio amryw ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys deunydd dwyieithog, ffurfiau hygyrch ar gyfer pobl ag anableddau ac ymdrechion i estyn allan at grwpiau â nodweddion gwarchodedig.
d) Dylai Swyddogion rannu unrhyw wybodaeth ddiweddaraf ag Aelodau Etholedig i'w helpu â materion sy'n effeithio ar eu wardiau. Gwneir hynny'n brydlon.

**8.16. Sgwrsio Byw**

a) Darperir cyfleuster sgwrsio byw ar rai tudalennau penodol o'n gwefan, sy'n ffordd hwylus i bobl ymwneud â'r Cyngor.

b) Gall pobl gael cymorth a chefnogaeth ar unwaith drwy sgwrsio byw, gan leihau'r amseroedd ymateb ac yn datrys ymholiadau, cwynion a cheisiadau am wasanaeth yn gyflym, sy'n fwy effeithlon a hwylus i bobl.
Mae sgwrsio byw'n galluogi cyswllt cyson rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'i drigolion, sy'n golygu bod modd cael deialog ystyrlon, hyrwyddo tryloywder a chryfhau cysylltiadau â'r gymuned oherwydd y sianel uniongyrchol hon ar gyfer cyfathrebu a chydweithio.

c) Y canolfannau cyswllt fydd yn gweithredu'r Sgwrsio Byw a bydd y cyfleuster ar gael yn ystod oriau swyddfa, 9am tan 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

## 9. Adnoddau ar gyfer Cyflawni

9.1. Gellir defnyddio amrywiaeth helaeth o adnoddau ac offer wrth roi'r strategaeth hon ar waith. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ffyrdd y gallwn wneud pethau'n wahanol, yn hytrach na gwneud llawer o bethau newydd.

**9.2. Pobl**

a) Mae gan arweinwyr y sefydliad ran allweddol i'w chwarae. Gall y Prif Weithredwr, Aelodau â chyfrifoldebau arbennig, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau oll yrru'r strategaeth yn ei blaen drwy ymgorffori ei hegwyddorion fel modelau rôl ac wrth eu gwaith.

b) Mae gan Reolwyr swyddogaeth arbennig o bwysig wrth helpu eu timau i ddeall y dull a gyflwynir yn y strategaeth a sicrhau bod y timau hynny'n chwarae eu rhan wrth ei gweithredu.

c) Dynodir rhywun ymhob maes gwasanaeth i arwain ar faterion Cyfathrebu a bod yn bwynt cyswllt â Strategaeth Gyfathrebu ehangach y Cyngor. Bydd y swyddogion hyn yn gyfrifol, ymysg pethau eraill, am sicrhau bod eu gwasanaethau hwy'n cyfrannu at negeseuon yn benodol i'r gwasanaeth drwy amryw sianeli'n fewnol ac allanol.

d) Fe geisiwn sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chreu asedau'n effeithiol, a defnyddio asedau i ategu brand Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Grŵp Cyfathrebu Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd i gefnogi a chynorthwyo pob gwasanaeth ac adain i ategu'r nodau strategol ehangach.

e) Y Tîm Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth. Byddant yn llunio Cynllun Gweithredu Cyfathrebu yn sail ar gyfer gweithredu'r strategaeth yn ogystal â Chynllun Gweithredu Blynyddol y Tîm.

f) Bydd y Tîm Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol yn darparu cyngor a chyfarwyddyd i Aelodau a Swyddogion ynglŷn â chynllunio a rhannu deunydd cyfathrebu o bwys, yn enwedig felly wrth gyhoeddi penderfyniadau'r Cabinet. Bydd hynny'n sicrhau y gellir llunio datganiadau i'r wasg a deunyddiau eraill o flaen llaw.

g) Mae Grŵp Cysylltiadau Cyhoeddus a Negeseuon yn cwrdd bob pythefnos dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r grŵp yn adolygu pynciau llosg o safbwynt cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus a bydd yn gallu adolygu'r strategaeth yn rheolaidd ac arfarnu mor effeithiol ydyw.

h) Adolygir y Strategaeth yn drylwyr erbyn 2026.

**9.3. Offer Cyfathrebu**

a) Gallwn ddefnyddio amrywiaeth helaeth o offer wrth roi'r strategaeth hon ar waith yn llwyddiannus, gan gynnwys y Calendr Cyfathrebu a ddefnyddir i gynllunio ar gyfer materion ar y gorwel.
b) Defnyddir amrywiaeth o offer wrth weithredu'r strategaeth hon a rhestrir rhai ohonynt yn Adran 6. Mae'n bwysig mabwysiadu dull aml-sianel gan fod gwahanol gynulleidfaoedd yn ymateb yn well i wahanol arddulliau.
c) Yn fewnol, mae'r Briff Tîm yn ffordd hanfodol o sicrhau bod ein staff yn deall y negeseuon allweddol ynglŷn â'n prosiectau a chynlluniau mawr.
d) Mae ein brand yn gaffaeliad mawr inni wrth roi'r strategaeth hon ar waith. Bydd ein brand yn ein helpu wrth inni weithio i fod yn fwy cyson yn y modd y cyflwynwn y sefydliad a'r gwaith a wnawn. Dyma sut rydym yn mynegi gwerthoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u rhannu â thrigolion ymhob sefyllfa pan maent yn ymwneud â ni.
e) Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r asedau a ddatblygwyd i ategu'r brand yn hollbwysig. Bydd y canllaw arddull, y canllaw ysgrifennu a'r templedi cyhoeddi'n ein galluogi i sicrhau bod ein holl waith cyfathrebu ac ymgysylltu'n cyfleu gwir lais nodweddiadol Conwy.

**9.4. Arfarnu**

a) Bydd arnom angen datblygu fframwaith ar gyfer arfarnu ein gwaith cyfathrebu a meithrin cyswllt er mwyn inni allu deall a yw'r holl bethau a wnawn i fod yn fwy cyson, cynlluniedig, rhagweithiol, didwyll a hygyrch i bawb yn effeithiol.
b) Y meincnod mwyaf defnyddiol fydd i ba raddau y mae pobl yng Nghonwy'n ein cysylltu ni â'r Cynllun Corfforaethol (2022-27) – gallwch weld y Cynllun Corfforaethol yn llawn ar ein gwefan yma.
c) Gallwn wneud hyn drwy bennu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth a mesur ymwybyddiaeth ar sail yr un datganiadau bob blwyddyn. Mae dulliau arfarnu defnyddiol eraill yn cynnwys Arolwg Cymru Gyfan a'r wybodaeth ddadansoddol y gallwn ei gael o gyfryngau cymdeithasol fel *Facebook*.

## 10. Casgliad

10.1. Mae'r strategaeth hon yn ymgorffori ein hymrwymiad i wella'n barhaus er mwyn argyhoeddi ein trigolion i ymuno â ni wrth inni drawsnewid y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n gweithio yn yr unfed ganrif ar hugain. Drwy fod yn gyson, cynllunio o flaen llaw a bod yn ddidwyll wrth gyfathrebu, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb, byddwn yn helpu pobl i ddeall y newidiadau sydd ar y gorwel ac yn ennyn eu hymddiriedaeth ein bod yn gweithredu er lles ein cymunedau.

10.2. Bydd meithrin cyswllt a chyfathrebu'n ganolog i bopeth a wnawn yn y blynyddoedd i ddod. Drwy arfer y mathau iawn o ymddygiad, prosesau ac offer, gallwn sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n ein helpu i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol. Drwy wneud hynny'n effeithiol, byddwn yn sicrhau fod pobl yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Atodiad 1

## Sianeli Cyfathrebu

Atodiad 2

## Siart Llif Sianeli Cyfathrebu

Atodiad 3

## Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth – *Strategic Communication: MCOM Function Guide*, "*Engagement Framework*"